

Minutes of the **Finance and General Purposes Committee Meeting** held at the Penrhyn Hall, Ffordd Gwynedd, Bangor on **Monday 29 January 2018 at 6.55 pm**

**PRESENT :-** His Worship the Mayor, Councillor D Hainge  
The Deputy Mayor, Councillor John Wynn Jones  
Councillors :- Ifan James (Vice-Chairman) Colin King Conor Savage  
Medwyn Hughes J M Martin Elin Walker Jones  
Owen Hurcym Enid Parry John Wyn Williams  
Gwynant Roberts Gareth Roberts Huw Wyn Jones  
Keith Jones Mair Rowlands

Officer : Mr Ian Jones, Town Clerk/Finance Officer

#### 171/17 APOLOGIES

Apologies for absence were received from Councillors Les Day and Luke Tugwell.

#### 172/17 DECLARATION OF FINANCIAL INTEREST OR PERSONAL CONNECTION

Councillors I James, J Wynn Jones, M Rowlands and J W Williams declared an interest in Item 174/17 Applications for Financial Assistance.

#### 173/17 URGENT BUSINESS

- (i) The Town Clerk advised Members that the Draft Report of the Local Democracy and Boundary Commission on Electoral Arrangements in Gwynedd County had just been published. A consultation period was set between 30 January and 23 April 2018. The proposed changes were considered and Members expressed their concern at the implications for fair representation of the City at County level. **RESOLVED:** that the Town Clerk prepare a response based on Members concerns and this be shared with all Councillors and County Councillors prior to submission by the Town Clerk.
- (ii) The Town Clerk reported that there was to be an engagement event held by the Independent Review Panel for Town & Community Councils in Wales. This would take place on Tuesday 6 March at 12 noon in Caernarfon Town Council Offices. Pre-registration was required.
- (iii) The Town Clerk advised Members that the Gwynedd & Anglesey Well-Being Draft Plan was out for consultation. Comments to be submitted by 30 March 2018 to Gwynedd and Mon Public Services Board.
- (iv) The Town Clerk provided an update on the Pier Restoration Project and responded to questions. He reported details of the financial position as at 18 January and reported that the expenditure had been agreed by the Client Sub-Group and Financial Approvers. **RESOLVED :** that the update be noted and the financial details approved.

#### 174/17 SECTION 137 APPLICATIONS FOR FINANCIAL ASSISTANCE

The Town Clerk reported on applications that had been received and responded to several questions on the process, funding and details of each of the application.

**RESOLVED :** that the following organisations be granted the sum of £250.00 each:-

- a) Y Goriad
- b) Clwb Nofio Bangor Swim Club
- c) CPD Penrhosgarnedd FC
- d) Menter Iaith Bangor

Declarations of interest by Councillors I James, J Wynn Jones, M Rowlands and J W Williams, who left the Meeting during the discussion and decision on these matters.

His Worship the Mayor presided during this item but was not eligible to vote.

#### 175/17 FINANCE

a) **Invoices for Payment** - It was noted that invoices as detailed on the schedule totalling £5665.06 had been approved. **RESOLVED** that the payments be noted.

b) **Third Quarter Accounts 2017/18** - The Town Clerk presented the Third Quarter Accounts for information and comment.

**RESOLVED :** the Accounts be received and noted as set out in the report.

### **176/17 RISK ASSESSMENT REVIEW & CONTROL OF FINANCIAL SYSTEM**

The Town Clerk presented the above document, which had been circulated. A request for a Red, Amber, Green (RAG) style report to be inserted into the document in the future was received.

**RESOLVED** : that the Risk Assessment Review and the Review of Effectiveness of Internal Control System document be received and approved.

### **177/17 TOWN CLERK'S FINANCIAL REPORT – BUDGET FOR 2018/2019**

The Town Clerk presented the budget report and responded to questions by Members on the various headings as follows :-

#### **Review of Council Prices and Charges**

**RESOLVED:-** to approve the prices of Penrhyn Hall hire as indicated in the Town Clerk's Report; rental charges for the Pier Kiosks as set out in the Report; and that the Pier entrance prices should remain the same; and the car park price as indicated in the report;

#### **Works at the Pier**

Members noted the current position with regards to the capital works being undertaken.

#### **Woodland Maintenance.**

Members noted the concern regarding the condition of the two areas of woodland in the Council's ownership – Menai Woods and Penrhyn Arms Woods – and that remedial work needed to be carried out over the course of the next 2/3 years to make the areas safe and deal with Japanese Knotweed.

#### **Gwynedd Services**

Members discussed the current situation with regard to devolved services, transfer of assets and the possibility of the City Council investing in these areas.

**RESOLVED** that a reserve fund of approximately £29,000 be set aside for contingency in this area, which included a £10,000 contribution to the Public Conveniences.

#### **Staffing**

It was noted that two seasonal temporary workers would be required to assist with the workload

**RESOLVED** that the Town Clerk assess requirements and be authorised to appoint two seasonal temporary workers in consultation with the Mayor, Deputy Mayor and Chair of the Staffing Panel.

### **178/17 ESTIMATES OF INCOME & EXPENDITURE**

The Town Clerk presented the detailed schedule of Estimates for 2018/2019

The Budget was reviewed page by page and the Town Clerk explained the figures set out under the various headings, highlighting the major items of expenditure necessary in the coming financial year.

**RESOLVED** to accept all the recommendations contained in the schedule of Budget Estimates.

### **179/17 PRECEPT 2018/2019**

**RESOLVED** : that the recommendations contained in the Schedule of Budget Estimates be approved subject to :-

- 1) any Capital Expenditure be funded from the Capital Reserve Account;
- 2) the Capital Reserve of £1.3m already allocated to the Pier Renovation Project be confirmed and ear-marked as such;
- 3) any under-spend from 2017/18 be allocated to General Reserves and new contingency costs; and
- 4) the Precept for 2018/2019 be £380,700.

Cofnodion y **Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol** a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn, Ffordd Gwynedd, Bangor, nos Lun 29 o Ionawr 2018 am 6.55 y.h.

**PRESENNOL :-** Ei Deilyngdod y Maer, y Cynghorydd D Hainge  
Y Dirprwy Faer, y Cynghorydd John Wynn Jones  
Cynghorwyr :-

Ifan James (Is-Gadeirydd)	Colin King	Conor Savage
Medwyn Hughes	J M Martin	Elin Walker Jones
Owen Hurcym	Enid Parry	John Wyn Williams
Gwynant Roberts	Gareth Roberts	Huw Wyn Jones
Keith Jones	Mair Rowlands	

Swyddog : Mr Ian Jones, Clerc y Dref/Swyddog Cyllid

#### 171/17 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Les Day a Luke Tugwell.

#### 172/17 DATGAN BUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Datganiad o ddiddordeb gan y Cynghorwyr I James, J Wynn Jones, M Rowlands a J W Williams yn eitem 174/227 Ceisiadau am roddion ariannol.

#### 173/17 MATERION BRYD

- (i) Dywedodd Clerc y Dref wrth yr Aelodau fod Adroddiad Drafft y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol ar Drefniadau Etholiadol yn Sir Gwynedd newydd gael ei gyhoeddi. Byddai cyfnod o ymgynghori rhwng 30 Ionawr a 23 Ebrill 2018. Ystyriwyd y newidiadau arfaethedig a mynegodd yr Aelodau eu pryder am y goblygiadau o ran cael cynrychiolaeth deg i'r Ddinas ar lefel Sirol. **PENDERFYNWYD:** y byddai Clerc y Dref yn paratoi ymateb yn seiliedig ar bryderon yr Aelodau ac yn rhannu hwn â'r holl Gynghorwyr a'r Cynghorwyr Sir cyn ei gyflwyno.
- (ii) Adroddodd Clerc y Dref fod digwyddiad ymgysylltu'n cael ei gynnal gan y Panel Arolygu Annibynnol i Gynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru. Byddai hwn yn cael ei gynnal ddydd Mawrth 6 Chwefror am hanner dydd yn Swyddfeydd Cyngor Tref Caernarfon. Roedd angen cofrestru ymlaen llaw.
- (iii) Dywedodd Clerc y Dref wrth yr Aelodau fod y Cynllun Drafft Llesiant ar gyfer Gwynedd a Môn yn barod i ymgynghori arno. Mae angen anfon sylwadau erbyn 30 Mawrth 2018 at Fwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd a Môn.
- (iv) Rhoddodd Clerc y Dref ddiweddariad ar Brosiect Adfer y Pier ac ymatebodd i gwestiynau. Adroddodd fanylion y sefyllfa ariannol fel ar 18 Ionawr ac adroddodd fod y gwariant wedi cael ei gytuno gan yr Is-Grŵp Cleient a'r Cymeradwywyr Ariannol. **PENDERFYNWYD:** nodi'r diweddariad a chymeradwyo'r manylion ariannol.

#### 174/17 ADRAN 137 CEISIADAU AM RODDION ARIANNOL

Adroddodd Clerc y Dref ar y ceisiadau a dderbyniwyd ac atebodd gwestiynau ar y broses, cyllido a manylion pob cais.

**PENDERFYNWYD** rhoi'r swm o £250.00 yr un i'r mudiadau canlynol:-

- a) Y Goriad
- b) Clwb Nofio Bangor Swim Club
- c) CPD Penrhosgarnedd FC
- d) Menter Iaith Bangor

Cafwyd datganiadau o ddiddordeb gan y Cynghorwyr I James, J Wynn Jones, M Rowlands a J W Williams, a adawodd y Cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r penderfyniad ar y materion hyn.

Roedd Ei Deilyngdod y Maer yn y Gadair ar gyfer yr eitem hon ond nid oedd yn gymwys i bleidleisio.

#### 175/17 CYLLID

- a) **Anfonebau i'w Talu** - Nodwyd cymeradwyaeth i'r anfonebau fel y manylir arnynt yn y rhestr yn dod i gyfanswm o £5665.06. **PENDERFYNWYD** nodi'r taliadau.
- b) **Cyfrifon Trydydd Chwarter 2017/18** Cyflwynodd Clerc y Dref gyfrifon y trydydd chwarter er gwybodaeth ac i dderbyn sylwadau.

**176/17 ADOLYGIAD ASESIAD RISG A RHEOLI SYSTEM CYLLID**

Cyflwynodd Clerc y Dref y ddogfen uchod, a oedd wedi'i dosbarthu'n barod. Cafwyd cais i roi adroddiad RAG (Coch, Ambr, Gwyrdd) yn y ddogfen o hyn ymlaen.

**PENDERFYNWYD** derbyn a chymeradwyo'r Adolygiad Asesiad Risg ac Adolygiad Effeithiolrwydd y System Rheolaeth Fewnol.

**177/17 ADRODDIAD ARIANNOL CLERC Y DREF – CYLLIDEB 2018/2019**

Cyflwynodd Clerc y Dref yr adroddiad cyllideb ac atebodd gwestiynau gan yr Aelodau ar yr amrywiol benawdau fel a ganlyn :-

**Adolygiad o Brisiau a Ffioedd y Cyngor**

**PENDERFYNWYD** :- cymeradwyo prisiau Neuadd y Penrhyn fel ag y dangosir yn Adroddiad Clerc y Dref; rhent blynyddol Ciosgau'r Pier fel ag y'u gosodwyd allan yn yr Adroddiad; y dylai prisiau mynediad i'r Pier aros yr un fath, a phris y maes parcio fel ag y nodir yn yr adroddiad.

**Gwaith Cyfalaf ar y Pier**

Nododd yr aelodau y sefyllfa bresennol o ran y gwaith cyfalaf sydd i gael ei wneud.

**Cynnal Coedwigoedd**

Nododd yr aelodau'r pryder am gyflwr dwy ardal o goetir ym mherchnogaeth y Cyngor - Coed Menai a Choed Penrhyn Arms - roedd angen gwneud gwaith ar y rhain dros y 2/3 blynedd nesaf i wneud yr ardaloedd yn ddiogel a delio â'r Clymog Japan.

**Gwasanaethau Gwynedd**

Trafododd yr aelodau y sefyllfa gyfredol o ran gwasanaethau i'w datganoli, trosglwyddo asedau a'r posibilrwydd y gallai Cyngor y Ddinas fuddsoddi yn y meysydd hyn.

**PENDERFYNWYD** neilltuo cronfa wrth gefn o tua £29,000 ar gyfer gwaith posibl yn y maes hwn. Roedd hyn yn cynnwys cyfraniad o £10,000 at y Toiledau Cyhoeddus.

**Staffio**

Nodwyd y byddai angen dau weithiwr tymhorol dros dro i helpu â'r llwyth gwaith.

**PENDERFYNWYD** fod Clerc y Dref yn asesu'r gofynion ac yn cael ei awdurdodi i benodi dau weithiwr tymhorol dros dro mewn ymgynghoriad â'r Maer, y Dirprwy Faer a Chadeirydd y Panel Staffio.

**178/17 AMCANGYFRIF INCWM A GWARIANT**

Cyflwynodd Clerc y Dref y rhestr fanwl o Amcangyfrifon ar gyfer 2018/2019.

Adolygwyd y Gyllideb fesul tudalen ac eglurodd Clerc y Dref y ffigyrau a oedd wedi'u gosod o dan yr amrywiol benawdau, gan dynnu sylw at y prif eitemau o wariant a oedd eu hangen yn y flwyddyn ariannol sy'n dod.

**PENDERFYNWYD** derbyn pob un o'r argymhellion yn y rhestr o Amcangyfrifon y Gyllideb.

**179/17 PRAESEPT 2018/19**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r argymhellion yn y Rhestr o Amcangyfrifon y Gyllideb yn amodol ar y canlynol:-

- 1) fod unrhyw Wariant Cyfalaf yn dod o'r Cyfrif Cyfalaf Wrth Gefn;
- 2) fod y Gronfa Gyfalaf o £1.3m a neilltuwyd yn barod i Brosiect Adfer y Pier yn cael ei gadarnhau a'i glustnodi ar gyfer hynny;
- 3) fod unrhyw danwariant o 2017/18 yn cael ei neilltuo i'r Gronfa Gyffredinol a chostau wrth gefn newydd; ac
- 4) mae'r Praesept ar gyfer 2018/2019 fyddai £380,700.

---

Daeth y cyfarfod i ben am 8.00 pm